**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Nick,

28 Ebrill 2017

Diolch am eich llythyr dyddiedig 4 Ebrill yn dilyn sesiwn graffu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Adroddiad Rheoli Grantiau Llywodraeth Cymru 2016.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am gytuno bod adroddiadau rheoli grantiau y dyfodol yn cael eu halinio â chyhoeddi'r Cyfrifon Blynyddol.

Yn ail, hoffwn rannu fy ymateb i'r cwestiynau dilynol a ddarparwyd gan y Clerc ar ôl y sesiwn. Lle bo hynny'n briodol, rwyf wedi ceisio rhoi'r rhain yng nghyd-destun y drafodaeth a gafwyd yn y sesiwn, neu ddeunydd a drafodwyd mewn adroddiadau rheoli grantiau blaenorol.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ailadrodd yr ymrwymiadau a wnaed gennyf yn ystod y sesiwn. Dyma'r ymrwymiadau hynny: cyflwyno'r Gronfa Ddata Atal Twyll Genedlaethol; datblygu a chyflwyno safonau gofynnol ar gyfer ein gwaith diwydrwydd dyladwy; a chomisiynu adolygiad allanol o ddarpariaeth gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru. Edrychaf ymlaen at roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd mewn adroddiadau a sesiynau craffu yn y dyfodol.

Yn gywir

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

## Adroddiad Rheoli Grantiau Llywodraeth Cymru 2016

### Cwestiynau dilynol ac ymatebion

### 1. Grantiau a Throthwyon tendro

Gofynnodd y Pwyllgor rai cwestiynau imi am lefelau caffael ac ynglŷn â gofyn i gyrff gystadlu am gyllid grant.

Yn aml, mae'r gwahaniaeth yn amlwg pryd ddylai Llywodraeth Cymru gaffael darpariaeth cynnyrch a gwasanaethau a dyfarnu cyllid grant i sefydliadau allanol fel cymorth i gyflawni amcanion polisi. Mae prosesau a chyfyngiadau diffiniedig wedi'u gosod gan ddeddfwriaeth Ewropeaidd, Rheoliadau Contractau Cyhoeddus a phrosesau mewnol Llywodraeth Cymru sy'n helpu i benderfynu pa ddull sydd fwyaf priodol.

Gall y penderfyniadau hyn fod yn gymhleth, gydag amrywiaeth o ystyriaethau gan gynnwys gorfod cadw mewn cof oblygiadau Cymorth Gwladwriaethol, TAW a Chyfreithiol posibl. Mae swyddogion o bob un o wasanaethau arbenigol Llywodraeth Cymru yn rhoi cyngor i'w cydweithwyr sy'n gweithio ym maes polisi i'w cefnogi i wneud penderfyniadau.

Yn fras, pan fo Llywodraeth Cymru yn comisiynu cynnyrch neu wasanaethau ar ei chyfer ei hun (fel cynllun ffordd, neu brynu deunyddiau swyddfa) byddai rhaid ymdrin â hynny fel mater caffael. Pan fyddwn yn ariannu gweithgareddau i'w cyflawni gan sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru sy'n ymestyn ein hamcanion polisi ehangach, gellir gwneud hynny fel arfer drwy gyllid grant. Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr caffael ac yn cefnogi swyddogion i benderfynu ar y dull gorau.

Pan fydd penderfyniad wedi'i wneud i ddyfarnu grant, yna mae amryw o ffyrdd o wneud hynny. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio proses grant gystadleuol (sef yr hyn yr wyf yn meddwl a oedd dan sylw gan y Pwyllgor yn ystod rhan o'r drafodaeth). Byddai hyn yn golygu bod cyrff yn cael eu gwahodd i gyflwyno cynigion ar gyfer y cyllid i bob pwrpas, yn seiliedig ar amcangyfrif o'r costau a'r canlyniadau y maen nhw o'r farn y gallant eu gwireddu. Fel a drafodwyd yn y Pwyllgor, er fy mod i'n sylweddoli bod gofyniad i gyflwyno cynnig, naill ar gyfer cyllid cychwynnol neu i adnewyddu dyfarniad cyllid, yn ychwanegu at gostau a gorbenion y cyrff dan sylw, mae hefyd yn caniatáu i ni gael mwy o sicrwydd ein bod yn cael gwerth am arian wrth ddyfarnu'r grant. Mae hyn hefyd yn agor y broses i dderbynyddion posibl eraill a allai gael eu heithrio fel arall.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth wedi cynhyrchu amrywiaeth eang o gynlluniau, gan gynnwys rhai ar ddefnyddio cynlluniau grant cystadleuol, sydd ar gael i swyddogion ar draws pob adran o'r sefydliad.

Mae'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru fel atodiad i Gynllun y Trydydd Sector, yn amlinellu'r egwyddorion sy'n sail i gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer y Trydydd Sector. Mae'r canllawiau yn rhoi cyngor ar lwybrau at gyllid. Mae disgwyl i Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru gydymffurfio ag egwyddorion y Cod drwy eu cytundebau cyllid.

Nid oes lefel na throthwy de minimis yn gysylltiedig â dyfarnu grantiau gan Lywodraeth Cymru. At weithgareddau caffael yn unig y cymhwysir y trothwy o £25k a hysbysebir. Cytunais y byddwn yn ystyried pa mor briodol yw'r trothwy presennol o £25k ar gyfer hysbysebu tendrau. Yn unol â Datganiad Polisi Caffael Cymru rhaid hysbysebu contractau cyhoeddus dros £25k ar wefan *GwerthwchiGymru*. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i sicrhau bod contractau yn agored ac yn hygyrch i bob cyflenwr, naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r gadwyn gyflenwi. Mae'r pwyslais hwn ar roi mwy o amlygrwydd i gontractau gwerth isel wedi helpu i gynyddu cyfran gwariant caffael sector cyhoeddus Cymru a enillir gan gyflenwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, o linell sylfaenol o 35% i dros 50%. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ymarfer mewn mannau eraill yn rheolaidd i sicrhau bod ein dull yn gyson â'r arferion gorau. Yn gyffredinol, o ystyried y canlyniadau cadarnhaol, rwy'n argyhoeddedig mai hwn yw'r terfyn cywir i Gymru o hyd ar hyn o bryd ond byddwn yn parhau i adolygu'r sefyllfa.

**2. Trothwyon tendro a Sicrhau Gwerth am Arian**

Gofynnodd y Pwyllgor ynglŷn â'r berthynas rhwng trothwyon tendro ac ystyriaethau yn ymwneud â sicrhau gwerth am arian. Wrth gynllunio ymarfer caffael, beth bynnag y bo ei werth, rhaid ystyried yn gyntaf a oes yna unrhyw fframwaith ar gael eisoes. Drwy ddefnyddio fframweithiau sydd ar gael eisoes, er enghraifft y rheini a ddyfernir gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, gellir osgoi'r costau a'r amser sydd ynghlwm wrth gynnal ymarfer caffael ar wahân. Bydd gwneud hyn hefyd yn cyflawni amcanion Datganiad Polisi Caffael Cymru. Mae hefyd yn sicrhau cydymffurfiaeth gan fod y trefniadau hyn wedi cael eu tendro mewn modd agored, tryloyw a theg yn unol â'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus.

Pan nad oes fframwaith ar gael eisoes, o dan brosesau caffael Llywodraeth Cymru, gofynnir bod o leiaf tri dyfynbris ysgrifenedig yn cael eu ceisio ar gyfer pryniant dros £5,000. Mae unrhyw bryniant dros £25,000 yn ddarostyngedig i broses dendro ffurfiol ac yn cael ei hysbysebu ar *GwerthwchiGymru*.

Mae canlyniadau tendrau yn cael eu meincnodi cyn dyfarnu contractau a hynny yn erbyn dangosyddion diwydiant neu gontractau blaenorol, er enghraifft, i roi sicrwydd ynghylch lefelau arbedion ac ystyriaethau ehangach yn ymwneud â gwerth am arian.

### 3. Rhaniad a Gwerth grantiau wedi'u neilltuo i Awdurdodau Lleol, Iechyd a'r Trydydd Sector yn 2015-16

Gofynnwyd imi ddarparu mwy o wybodaeth am hyn. Rwy'n gobeithio y bydd y tabl hwn o ddefnydd i'r Pwyllgor:

| Sector | Nifer y cynlluniau | Gwerth (m) |
|---|---|---|
| Awdurdod Lleol | 129 | £1,339 |
| Iechyd | 25 | £14 |
| Llywodraeth Ganolog a Chorfforaethau Cyhoeddus | 30 | £37 |
| Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | 13 | £53 |
| Cyllid ar gyfer Addysg | 52 | £448 |
| Y Sector Preifat | 140 | £676 |
| Y Trydydd Sector | 123 | £248 |

### 4. Arbedion gweinyddol

Gofynnodd y Pwyllgor imi ynglŷn ag ymrwymiad a wnaed yn y sesiwn graffu y llynedd y byddai Llywodraeth Cymru yn adrodd yn ôl yn yr adroddiad eleni ar y cynnydd o ran sicrhau arbedion gweinyddol mewn perthynas â grantiau. Ymddiheurais nad oedd hyn wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a dywedais y byddwn yn cynnwys yr wybodaeth berthnasol yn y llythyr hwn.

Fel ymateb i'r diddordeb a fynegwyd yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor yn y costau gweinyddol, dadansoddwyd sampl o gynlluniau grant gan Lywodraeth Cymru yn 2014. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth o grantiau mawr a bach i gyrff preifat a'r trydydd sector a rhai grantiau i unigolion. Cafodd canlyniadau'r dadansoddiad hwn eu cyhoeddi yn Adroddiad Blynyddol ar Grantiau 2014. Roedd y gwaith yn dangos tipyn o amrywiad yn lefel y costau gweinyddol ar draws yr ystod o grantiau a oedd yn rhan o'r sampl. Cawsom ein taro hefyd pa mor anodd yw asesu costau gweinyddu grantiau gan fod staff, gan amlaf, yn ymgymryd â'r swyddogaeth hon ar yr un pryd â thasgau eraill. Roedd hi'n anodd iawn dweud felly faint o amser yn union a dreuliwyd ar weinyddu grantiau.

Fodd bynnag, ers i'r gwaith dadansoddi cychwynnol hwn ddod i ben, fel rhan o raglen fy rhagflaenydd *Paratoi ar gyfer y Dyfodol*, cafodd gwaith ei wneud hefyd ar fod yn fwy effeithlon wrth weinyddu grantiau. Roedd y gwaith o dan y rhaglen honno yn ystyried sut i symleiddio a gwella prosesau yn y sefydliad mewn amrywiol feysydd. Yn benodol, ystyriodd Ffrwd Waith Busnes a Chorfforaethol Cyffredin Paratoi ar gyfer y Dyfodol i ba raddau y gellid gwella ansawdd gwaith gweinyddol a rhyddhau arbedion adnoddau staff drwy 'ganoli' gwaith gweinyddu grantiau. Daethpwyd i'r casgliad y dylid gweithredu ar lefel Grŵp yn y lle cyntaf wrth 'ganoli' gwaith gweinyddol.

Cafodd y pedwar grŵp busnes yn Llywodraeth Cymru y dasg o adolygu eu prosesau grant eu hunain gyda'r bwriad o gynhyrchu cynnig manwl yr un ar gyfer cyflwyno gwelliannau. Bydd yn ofynnol i'r grwpiau gynnwys dadansoddiad o'r arbedion o ran adnoddau y disgwylir eu cyflawni o ganlyniad i'w cynllun.

Gofynnwyd i'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau gymryd cyfrifoldeb dros oruchwylio'r cynlluniau hyn a'u cydlynu. Bydd y cynlluniau yn cael eu hadolygu gan y Ganolfan Ragoriaeth yn ystod yr haf; bydd sylwadau ar y cynlluniau yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad rheoli grantiau interim a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Cyfrifon Blynyddol.

Bydd y cynlluniau yn cael eu rhoi ar waith yn ystod y 12 mis nesaf. Bydd Llywodraeth Cymru yn gallu adrodd ar ganlyniadau'r gwaith a'r arbedion a gyflawnwyd yn Adroddiad Blynyddol 2017/18.

Bydd y grwpiau hefyd yn gallu rhannu'r gwersi a ddysgwyd drwy'r Gweithgor Grantiau, a fydd yn rhoi mwy o bwyslais yn ystod y flwyddyn sydd i ddod ar helpu i leihau costau gweinyddol.

Bydd y gwersi a ddysgwyd o'r gwaith hwn yn cael eu defnyddio i benderfynu a fydd newid i fabwysiadu un swyddogaeth weinyddol yn sicrhau ein bod yn rheoli grantiau yn fwy effeithlon eto.

**5. Cymunedau yn Gyntaf – Telerau Diswyddo**

Gofynnodd y Pwyllgor imi am y trefniadau ar gyfer dileu swyddi a allai godi yn sgil dod â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben.

Bydd Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei chau fesul cam felly fe ddylai hynny, ynghyd â'r mesurau lliniaru a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Blant a Chymunedau, sicrhau bod digon o amser ar gyfer adleoli llawer o staff. Cafodd canllawiau yn ymwneud â blwyddyn drosiannol 2017-18 eu hanfon i'r Cyrff Cyflawni Arweiniol ym mis Mawrth 2017 ac maent yn egluro'r sefyllfa mewn perthynas â dileu swyddi, lle nad oes modd osgoi gwneud hynny.

Mae Cymunedau yn Gyntaf yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru sy'n cael ei chyflwyno gan Gyrff Cyflawni Arweiniol fel derbynnydd y grant. Mae staff Cymunedau yn Gyntaf yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y Corff Cyflawni Arweiniol, felly byddai unrhyw delerau diswyddo yn cael eu seilio ar delerau'r Corff Cyflawni Arweiniol fel y cyflogwr ac nid rhai Llywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, Awdurdodau Lleol yw'r Cyrff Cyflawni Arweiniol ac mae nifer bach ohonynt yn sefydliadau'r trydydd sector.

Gall Cyrff Cyflawni Arweiniol Awdurdodau Lleol roi cymorth ariannol i sefydliadau'r Trydydd Sector o'u dyraniadau cyllid ar gyfer 2017-18 i dalu costau diswyddo statudol mewn amgylchiadau penodol. Byddai modd gwneud hynny pan fo sefydliad trydydd sector yn gynaliadwy yn y tymor hwy ond lle byddai'r sefydliad hwnnw mewn perygl petai'n gorfod gwneud taliadau diswyddo statudol untro yn sgil cau'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Dylai taliadau o'r fath fod yn destun proses diwydrwydd dyladwy a dylent gydymffurfio â chyfraith cyflogaeth a gweithdrefnau mewnol yr awdurdod lleol penodol.

Rydym yn sylweddoli bod cau'r rhaglen yn debygol o arwain at ansicrwydd i rai unigolion a allai gael eu heffeithio. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl gwneud taliadau diswyddo yn uniongyrchol i Gyrff Cyflawni Arweiniol na sefydliadau'r trydydd sector sy'n cyflawni ar eu rhan, ar wahân i'r hyn a wneir drwy'r grant Cymunedau yn Gyntaf.


Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 02920 823289
PS.PermanentSecretary@wales.gsi.gov.uk
Gwefan • website: www.wales.gov.uk